

**Arolygiad o dan Adran 28  
Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Gynradd Hirael  
Ffordd y Gogarth  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 1BA**

**Rhif yr Ysgol: 6612227**

**Dyddiad yr Arolygiad: 01/06/09**

**gan**

**Edward Goronwy Morris  
78283**

**Dyddiad Cyhoeddi: 03/08/09**

**O dan rif contract Estyn: 1119108**

**® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Hirael fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Hirael rhwng 01/06/09 a 03/06/09 gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Edward Goronwy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	6
<b>Crynodeb</b>	8
<b>Argymhellion</b>	11
<b>Safonau</b>	13
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	13
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	16
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	16
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	17
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	19
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	21
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	21
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	22
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	23
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	25
Cyfnod sylfaen	25
Cymraeg iaith cyntaf	28
Dylunio a thechnoleg	29
Celf a dylunio	30
Cerddoriaeth	31
Addysg gorfforol	32
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	34
<b>Atodiadau</b>	35
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	35
2 Data a dangosyddion ysgol	36
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	37
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	38
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	39

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gynradd Hiracl, sy'n ysgol ddwyieithog, ar ochr ogleddol dinas Bangor. Gweithredir polisi iaith dwyieithog Awdurdod Lleol (ALI) Gwynedd. Daw mwyafrif y disgyblion o'r ardal boblog sy'n amgylchynu'r ysgol, ond daw cryn nifer hefyd o ardaloedd y tu allan i'r dalgylch. Ystyrir yr ardal breswyl y daw'r disgyblion ohoni fel un sy gan mwyaf heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae'r disgyblion yn cynrychioli ystod gallu llawn. Mae canlyniadau asesiad sylfaen yn yr ysgol oddeutu cyfartaledd y sir. Mae 28 y cant o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd yr ALI o 12.8 y cant a'r ganran ar draws Cymru o 17.5 y cant. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf, ac mae 15 y cant ohonynt yn dod o gartrefi ble nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn brif iaith. Mae'r ysgol wedi derbyn grant Codi Cyrhaeddiad a Safonau Unigol (Rhagori) i dargedu disgyblion dan anfantais a chodi lefelau perfformiad.
2. Ar hyn o bryd, mae 182 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran derbyn i flwyddyn 6. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser yn unol â pholisïau'r ALI ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Derbynnir plant i'r feithrin yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed; ar hyn o bryd, mae 21 plentyn yn mynychu'n rhan amser. Mae 54 disgybl wedi eu hadnabod fel rhai ag Anghenion Addysg Arbennig (AAA) gan gynnwys 27 ar 'gweithredu ysgol a mwy' a pump sydd ar ddatganiad o AAA. Mae 25 disgybl yn yr ysgol yn derbyn cymorth dysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Does dim o'r disgyblion o dan ofal yr awdurdod lleol.
3. Yn ogystal â'r pennaeth mae 7 o athrawon amser llawn arall. Yn ychwanegol mae tair athrawes rhan amser. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1996. Mae niferoedd y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol ers pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2003. Lleolwyd dosbarth symudol ar gyfer Mudiad Ysgolion Meithrin ar fuarth yr ysgol yn 2005.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

4. Prif nod Ysgol Hiracl yw darparu addysg gytbwys fydd yn galluogi'r plant un diwrnod i ddod yn ddinasyddion o'r gymdeithas maent yn tyfu ynddi. Ymgeisir i ddatblygu potensial pob unigolyn at yr eithaf a rhoi iddynt yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer y dyfodol. Bwriad yr ysgol yw creu amgylchfyd hapus a gofalgaf sy'n galluogi'r plant i ddatblygu'n unigolion hyderus a dibynadwy, sy'n llwyr ymwybodol o'u anghenion a'u lles personol ac anghenion a lles eraill, o fewn a thu hwnt i gymuned yr ysgol.
5. Yn y flwyddyn ysgol bresennol, rhoddir blaenoriaeth i:
  - barhau i godi safonau dwyieithrwydd;
  - barhau i godi safonau ysgrifennu ymhellach yn y ddwy iaith trwy wella sillafu;

- godi safonau mathemateg yn benodol yn y maes 'defnyddio a chymhwyso';
- godi safonau Addysg Grefyddol;
- addasu cynlluniau gwaith tymor byr fel eu bod yn nodi'n union sut mae'r ysgol yn bwriadu datblygu medrau meddwl, medrau sylfaenol a medrau allweddol disgyblion;
- gynllunio ar gyfer dysgu y tu allan i oriau ysgol;
- ddatblygu ymhellach rôl y Cyngor Ysgol;
- sicrhau cysondeb parthed hygyrchedd cyffredinol y Cynlluniau Addysgol Unigol;
- gwblhau Cam 3 Ysgolion Iach;
- ddatblygu ymhellach y cynllun Rhagori;
- ddatblygu ymhellach dulliau hunan arfarnu i gynnwys pawb;
- ddatblygu rôl monitro ac arfarnu'r cydlynwyr sy'n newydd i'w swyddi Medi 2008;
- addasu cyfrifoldebau staff yn sgil toriadau staffio Medi 2008; a
- sicrhau fod athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u harbenigeddau.

## Crynodeb

6. Mae Ysgol Hirael yn ysgol dda. Mae elfen o ragoriaeth yn y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a gynigir i ddysgwyr. Rhinwedd arbennig yr ysgol yw'r ymdeimlad o gymuned deuluol ac agosatrwydd y disgyblion. Ceir ethos gynhwysol hapus ac awryglch bositif iawn sy'n seiliedig ar gydberthynas a chydweithrediad da rhwng pawb. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.
7. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol ym mhump o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch yn y ddau gwestiwn arall.

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 2
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

8. Mae asesiadau statudol athrawon yn 2008 yn dangos bod 86.4 y cant o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd h.y. y lefel 2 disgwylidig yn y tri pwnc Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.7 y cant. Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 mae 76 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar lefel 4 neu uwch yng Nghymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 75.5 y cant. Mae hyn o'i cymharu ag ysgolion tebyg h.y. yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gosod yr ysgol yn y 50 y cant uchaf.
9. O ystyried y data dros dreigl amser o dair blynedd mae canlyniadau asesiadau'r CC yng nghyfnod allweddol 2 yn amlygu fod perfformiad disgyblion yn tueddu i ragori ar gyfartaleddau'r ALI a cenedlaethol yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a bod safonau yn y Gymraeg yn gwella. O ystyried y data dros dreigl tair blynedd a chymharu asesiadau cyfnod allweddol 2 gyda perfformiad yr un disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 mae eu cynnydd yn cymharu'n ffafriol gyda mesuriadau cynydd lleol a chenedlaethol. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.
10. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:



Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
15%	68%	17%	0%	0%

11. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n agos â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008.

12. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

13. Mae safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn y cyfnod sylfaen fel a ganlyn:

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Gradd 2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2

14. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Dylunio a Thechnoleg	Gradd 1	Gradd 1
Celf	Gradd 2	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 3	Gradd 2
Addysg Gorfforol	Gradd 2	Gradd 2

15. Ar draws yr ysgol gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gan gynnwys disgyblion ag AAA gynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial. Mae sgiliau cyfathrebu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Nid yw pawb mor hyderus yn y Gymraeg. Amherir ar ansawdd gwaith ysgrifenedig nifer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gan wallau cystrawen a sillafu. Defnyddiant eu medrau mathemategol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), datrys problemau a chreadigol yn effeithiol mewn amryw o bynciau. Mae cymhwysedd dwyieithog mwyafrif y disgyblion yn dda.

16. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn diwethaf yn 93 y cant. Mae hyn yn is na cyfartaleddau yr ALI a cenedlaethol. Mae prydlondeb gyda ychydig eithriadau yn dda.

17. Mae agwedd y rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at ddysgu yn dda. Cydweithiant yn hapus a siriol gyda'i gilydd. Serch hynny, nid yw gallu disgyblion i adnabod drostynt eu hunain sut i wella eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.

18. Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o faterion cyfle cyfartal. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach.
19. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith a'r gweithle yn dda. Mae elfen o ragoriaeth ym myd mentergarwch. Mae cyfraniad y disgyblion at fywyd y gymuned yn dda. Mae hyn oll yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth da iawn o'r byd o'u cwmpas.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

20. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
29%	53%	18%	0%	0%

21. Mae'r ffigyrau hyn yn welliant sylweddol ar yr arolwg diwethaf. Maent yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008.
22. Yn y gwersi a farnwyd yn rhagorol, ceir cyflwyniadau egniol a bywiog, tasgau heriol wedi eu selio ar brofiadau uniongyrchol, sgiliau holi ymestynnol ag amrywiaeth o strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol. Yn y rhan helaethaf o'r gwersi mae ôl paratoi trylwyr a chynllunio'n effeithiol mewn ymateb i anghenion y gwahanol alluoedd o fewn y dosbarth. Ceir awyrgylch drefnus a chadarnhaol a rheolaeth dda ar amser. Defnyddir sgiliau holi da a phwyslais penodol ar wella iaith y disgyblion. Yn y gwersi lle nodwyd diffygion nid yw'r amcanion yn ddigon clir ac nid yw'r tasgau yn sicrhau cyfranogiad gweithredol y dysgwyr. Ar adegau ceir elfen o or-gyfarwyddo gan athrawon gaiff effaith niweidiol ar dempo'r wers.
23. Mae'r gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd yn dda, yn weithredol ac yn bodloni gofynion statudol. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i gynnwys y disgyblion yn fwy yn y broses o hunan asesu eu gwaith.
24. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau, sy'n diwallu anghenion dysgu a diddordebau'r disgyblion ac yn bodloni anghenion statudol. Caiff datblygiad y medrau allweddol sylw da. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion yn dda. Cyfoethogir profiadau dysgu'r disgyblion gan bartneriaethau effeithiol. Rhoddir sylw da i ddyfnhau gwybodaeth disgyblion o fyd gwaith ac i hyrwyddo medrau menter. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a ddinasyddiaeth fyd eang yn dda. Rhoddir sylw da i gadw'n iach.
25. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau clir sy'n cyfrannu at les, iechyd a diogelwch y disgyblion pan fyddant yng ngofal yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagoriaeth ac yn llwyr ymateb gofynion y Cod Ymarfer. Mae'r cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r rhieni yn arbennig o effeithiol. Mae gweithdrefnau'r ysgol sy'n

ymwneud â chyfle cyfartal a chynnal ymddygiad da yn weithredol ac yn hynod o effeithiol. Fe adlewyrchir hyn ym mywyd a gwaith bob dydd yr ysgol.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

26. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad cydwybodol a gofalgar. Mae'n uchel ei pharch yn y gymuned ysgol. Mae nodau ac amcanion cytunedig yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i ailstrwythuro ac ailddiffinio cyfrifoldebau yn sgil newidiadau staff a gofynion y cwricwlwm diwygiedig. Mae'r corff llywodraethol yn hynod o gefnogol, yn weithgar ac yn drylwyr.
27. Mae diwylliant o hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn bodoli o fewn yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau'n gynhwysfawr a chynhwysol er nad ydynt ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n ddigonol ar gyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwelliant, ar y cyfan, yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Serch hynny nid oes cyswllt digon clir rhwng y blaenoriaethau hyn a'r targedau a osodir ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Cydnabyddir hyn gan yr Ysgol.
28. Mae gan yr ysgol nifer digonol o athrawon a staff cefnogi ar gyfer nifer y disgyblion. Mae ymroddiad yr holl staff yn hybu nodau'r ysgol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i sicrhau hyfforddiant pellach i alluogi staff i gyfrannu'n llawn i ddatblygiad y cyfnod sylfaen.
29. Mae gofod yr adeilad a'r safle yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'r arddangosfeydd o fewn yr ysgol yn ddeniadol a symbylol ac yn creu amgylchedd sy'n hybu'r dysgu a'r addysgu.
30. Mae cyflenwad da iawn o adnoddau ar gyfer pob oedran ac fe'u defnyddir yn effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda. Goruchwylir y cyllid yn ofalus er mwyn sicrhau gwerth da am arian.

### **Argymhellion**

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

- A1 godi safonau Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a cherddoriaeth yng nghyfnod allweddol 1;
- A2 ddatblygu ymhellach allu'r dysgwyr i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain a dod yn gynyddol gyfrifol am eu haddysgu eu hunain;
- A3 sicrhau fod yr addysgu yr un mor effeithiol ym mhob dosbarth; a
- A4 mireinio'r broses hunan arfarnu a chynllunio i ganolbwyntio ar godi safonau grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae argymhellion hyn eisoes yn flaenoriaethau yn yr adroddiad hunan arfarnu neu'r CDY.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

31. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
32. Mae asesiadau statudol athrawon yn 2008 yn dangos bod 86.4 y cant o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd h.y. y lefel 2 disgwylidig yn y tri pwnc Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.7 y cant. Mae cyraeddïadau y disgyblion saith oed ym mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon yn cymharu'n agos a cyfartaleddau'r ALI a cenedlaethol. Maent ychydig yn is yn y Gymraeg.
33. Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 mae 76 y cant o'r disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar lefel 4 neu uwch yng Nghymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 75.5 y cant. Mae hyn o'i cymharu ag ysgolion tebyg h.y. yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gosod yr ysgol yn y 50 y cant uchaf. Mae cyrhaeddiad y disgyblion 11 oed yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau'r ALI a cenedlaethol. Maent yn cymharu'n agos a'r cyfartaleddau cenedlaethol yn Saesneg ond ychydig yn is na cyfartaleddau'r ALI. Maent yn is na cyfartaleddau'r ALI a cenedlaethol ym mathemateg.
34. O ystyried y data dros dreigl amser o dair blynedd mae canlyniadau asesiadau'r CC yng nghyfnod allweddol 2 yn amlygu fod perfformiad disgyblion yn tueddu i ragori ar gyfartaleddau'r ALI a cenedlaethol yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a bod safonau yn y Gymraeg yn gwella. O gymharu asesiadau cyfnod allweddol 2 gyda perfformiad yr un disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 mae eu datblygiad yn dangos cynnydd da y'n cydfynd â'r mesuriadau cyrhaeddiad lleol a cenedlaethol. Nid oes patrwm arwyddocaol yn amlygu ym mherfformiad bechgyn a merched. Mae perfformiad y merched trwyddi draw yn rhagori ar y bechgyn gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.
35. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
15%	68%	17%	0%	0%

36. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n agos â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn genedlaethol, mae safonau'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o wersi ac mae safonau'n rhagorol (Gradd 1) mewn 12% o wersi.

37. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

38. Mae safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn y cyfnod sylfaen fel a ganlyn:

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Gradd 2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2

39. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

<b>Pynciau</b>	<b>Cyfnod Allweddol 1</b>	<b>Cyfnod Allweddol 2</b>
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 3
Dylunio a Thechnoleg	Gradd 1	Gradd 1
Celf	Gradd 2	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 3	Gradd 2
Addysg Gorfforol	Gradd 2	Gradd 2

40. Gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion, beth bynnag yw eu hoed, rhyw, gallu, cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol gan gynnwys y rhai gyda AAA, gynnydd da wrth gaffael medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Cyflawnant dargedau a nodau cytunedig. Wrth symud drwy'r ysgol maent yn sicrhau gwybodaeth ac yn dangos dealltwriaeth dda o'u medrau ac yn defnyddio'u sgiliau mewn sefyllfaoedd newydd yn hyderus a llwyddiannus.

41. Ar draws yr ysgol mae sgiliau cyfathrebu llafar mwyafrif disgyblion gyda'i gilydd a gydag oedolion yn dda. Nid yw pawb mor hyderus yn y Gymraeg. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwrando'n dda, yn cyfathrebu'n gyda'i gilydd ac yn darllen ac ysgrifennu yn ôl eu gallu a'u hoedran. Mae'r rhan fwyaf yn barod i gyfrannu'n ddeallus mewn sgwrs a thrafodaeth dosbarth. Mae iaith lafar disgyblion cyfnod allweddol 2 yn parhau i ddatblygu. Mae'r rhan fwyaf yn barod iawn i drafod eu gwaith. Siarada'r mwyaf galluog yn hyderus gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Maent yn gwrando'n astud ar yr athrawon ac ar ei gilydd. Mae eu gallu i ddarllen yn y Gymraeg yn dangos gwelliant ar draws y cyfnod allweddol gyda'r goreuon yn darllen y rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth o'r testyn. Defnyddia'r mwyafrif eu sgiliau ysgrifennu'n briodol i gofnodi eu gwaith. Serch hynny, amherir ar ansawdd gwaith nifer o'r disgyblion gan wallau cystrawen a sillafu. Mae medrau cyfathrebu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn Saesneg yn dda. Darllena'r mwyafrif yn rhugl a hyderus a defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol wrth ymdrin a nifer o agweddau o'r cwricwlwm.

42. Ar draws yr ysgol mae medrau mathemategol a datrys problemau mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda. Gwna disgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnydd

effeithiol iawn o'u medrau mesur a dadansoddi data er engrhaiff i gefnogi eu gwaith yn dylunio a thechnoleg. Mae'r mwyafrif yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh a gwna disgyblion hynaf cyfnod allweddol 2 ddefnydd rhagorol o'u medrau i ymchwilio, arbrofi a chyflwyno gwybodaeth. Mae elfen o ragoriaeth ym medrau creadigol disgyblion. Amlygir hyn yn eu gwaith mewn celf a dylunio a thechnoleg.

43. Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn dda. Mae'r mwyafrif yn datblygu'n hyderus ddwyieithog ac yn ymdrin yn dda a thestunau yn y ddwy iaith.
44. Mae agwedd y rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at ddysgu yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn dangos diddordeb amlwg yn yr hyn maent yn ei wneud, yn canolbwyntio'n dda ac yn cael boddhad amlwg o'r profiadau. Mae eu gallu i weithio'n annibynnol dan gyfarwyddyd eu hathrawon yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhai disgyblion yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'u lefelau cyflawniad a dangos dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau yn eu gwaith. Serch hynny nid yw gallu disgyblion i adnabod drostynt eu hunain sut i wella eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.
45. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Rhoddant barch i'w hathrawon ac hefyd tuag at ymwelwyr â'r ysgol. Mae hyn yn rhoi seiliau cadarn iddynt ddatblygu'n aelodau cyfrifol o'r gymuned. Nodweddiadol o'r ysgol yw y modd yr ymhyfrydir yn amrywiaeth cefndiroedd a diwylliannau y disgyblion. Mae parchusrwydd a goddefgarwch yn amlwg iawn. Fe adlewyrchir y frawdoliaeth hyfryd yma ym mywyd a holl weithgareddau'r ysgol.
46. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn ddiwethaf yn 93 y cant. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol ond yn cymharu'n agos ag ysgolion tebyg h.y. yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae prydlondeb, gydag ychydig eithriadau, yn dda.
47. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Maent yn ystyriol, cyfeillgar a chwrtais i'w gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cefnogi naill ar llall yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae eu dealltwriaeth o onestrwydd a thegwch yn amlwg a dangosant barch, gofal a phryder amlwg am eraill. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach. Dengys y disgyblion ddealltwriaeth dda o faterion cyfle cyfartal ynghyd â pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas.
48. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith a'r gweithle yn dda. Mae elfen o ragoriaeth ym myd mentergarwch. Cydnabuwyd hyn pan ddyfarnwyd gwobr i'r ysgol am ei gwaith ar bapur yr ysgol. Mae cyfraniad y disgyblion at fywyd y gymuned yn dda. Mae hyn oll yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda iawn o'r byd o'u cwmpas ac yn rhoi sylfaen gadarn iddynt ym mhwsigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

#### Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

49. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r gradd 3 ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae arsylwadau'r arolygwyr yn cyfiawnhau gradd uwch.

50. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
29%	53%	18%	0%	0%

51. Mae'r ffigyrau hyn yn welliant sylweddol ar yr arolwg diwethaf. Maent hefyd yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn genedlaethol mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 83 y cant o wersi ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (Gradd 1) mewn 16 y cant o wersi. Mae nifer y gwersi lle gwelwyd addysgu rhagorol yn sylweddol uwch.

52. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Defnyddir eu harbenigedd yn effeithiol iawn mewn nifer o feysydd. Maent wedi sefydlu perthynas dda iawn gyda'r disgyblion yn seiliedig ar barch ddwy ffordd ac maent yn creu hinsawdd sy'n gydnaws â dysgu effeithiol.

53. Mae'r athrawon yn cwrdd ag anghenion ieithyddol disgyblion yn y ddwy iaith ac yn sicrhau cyfle cyfartal.

54. Yn y gwersi a farnwyd yn rhagorol, ceir cyflwyniadau egniol a bywiog, tasgau heriol wedi eu selio ar brofiadau uniongyrchol, sgiliau holi ymestynnol ag amrywiaeth o strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol.

55. Yn y rhan helaethaf o'r gwersi mae ôl paratoi trylwyr a chynllunio da. Gwelir nod clir i'r gwersi, cyfarwyddiadau da ac amrywiaeth pwrpasol o dasgau addas sy'n cyfateb i anghenion y gwahanol alluoedd o fewn y dosbarthiadau. Ceir awyrgylch drefnus a chadarnhaol a rheolaeth dda ar amser. Defnyddir sgiliau holi da a phwyslais penodol ar wella iaith y disgyblion.

56. Yn y gwersi lle nodwyd diffygion nid yw'r amcanion yn ddigon clir ac nid yw'r tasgau yn sicrhau cyfranogiad gweithredol y dysgwyr. Ar adegau ceir elfen o or-gyfarwyddo gan athrawon. Caiff hyn effaith niweidiol ar dempo'r wers.

57. Mae gweithdrefnau asesu a chofnodi ar draws yr ysgol yn dda ac yn weithredol, ac yn bodloni'r gofynion statudol. Fe gedwir cofnodion manwl o gynnydd disgyblion ym mhob pwnc, ac mae'r athrawon yn defnyddio'r gwybodaeth yn effeithiol i adnabod cyraeddiadau a chyflawniadau disgyblion. Drwy asesiadau parhaus yr athrawon a gweinyddu profion safonedig yn rheolaidd fe wneir defnydd effeithiol o'r gwybodaeth i baratoi gwaith addas ar gyfer unigolion ac i wirio cynlluniau gwaith os bydd angen. Mae'r ysgol yn dadansoddi canlyniadau



asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol (CC) yn ofalus a defnyddir y data yn bwrpasol er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a chodi safonau.

58. Mae'r portffolios pynciol cyfredol o waith wedi lefelu yn gwella hyder athrawon parthed eu hymwneud â lefelau priodol ar gyfer asesu a chynllunio.
59. Mae gan yr ysgol bolisi marcio sydd yn gosod allan egwyddorion ar gyfer marcio yn y pynciau craidd a sylfaen. Caiff gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol ei farcio'n rheolaidd. Yn yr arfer orau, mae'r sylwadau adeiladol yn awgrymu sut y gellir gwella'r gwaith ond nid yw'r ymarfer hyn yn gyson ar draws y dosbarthiadau. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.
60. Mae athrawon mewn rhai dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'r arfer o annog disgyblion i werthuso eu gwaith eu hunain er mwyn hyrwyddo eu medrau hunan asesu ond mae angen lledaenu'r ymarfer hwn i weddill y dosbarthiadau. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.
61. Mae adroddiadau i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol ac maent o ansawdd da. Dangosir cynnydd blynyddol y disgyblion yn glir. Maent yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol. Darperir cyfleon addas i rieni gynnig sylwadau a thrafod cynnydd eu plant ynghyd â chyd drafod targedau gwelliant. Gwerthfawroga'r rhieni bolisi drws agored yr ysgol os bydd angen trafod unrhyw fater addysgol.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

62. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
63. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu a diddordebau disgyblion ac yn sicrhau bod cyfleon cyfartal iddynt elwa o gwricwlwm sy'n eang a chytbwys. Cydymffurfir yn llawn â'r gofynion statudol.
64. Mae'r cynlluniau diwygiedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn cynnig canllawiau clir i'r athrawon. Mae'r cynllunio thematig yng Nghyfnod Allweddol 2, lle cyplisir pynciau megis dylunio a thechnoleg â gwaith ieithyddol yn arbennig. Cynllunir yn ofalus ar gyfer addysgu'r medrau allweddol, y medrau sylfaenol ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae datblygiad medrau TGCh ar draws y cwricwlwm yn dda.
65. Cyfoethogir y profiadau a gyflwynir i'r disgyblion trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, a thrwy drefnu profiadau addysgol y tu allan i ffiniau'r ysgol. Wrth ymweld â'r safle addysgol Rhyd Ddu fe gyfoethogir addysg awyr agored y disgyblion, yn ogystal â meithrin eu medrau personol a chymdeithasol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei hintegreiddio'n ofalus i'r themau o fewn y cynlluniau. Rhoddir lle amlwg i lais y disgyblion yn nhrefnadau'r Cyngor Ysgol ac Ysgolion Gwyrdd. Mae'r ysgol yn gweithio i gwblhau Cam 3 Ysgolion Iach.

66. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn dda. Rhoddir pwyslais arbennig ar y Cwricwlwm Cymreig ac ar ddiwylliant Cymru ym mywyd a gwaith yr ysgol.
67. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Meithrinir agweddau cymdeithasol cyfrifol ym mywyd a gwaith yr ysgol a phwysleisir yr angen i'r disgyblion barchu eu hunain ag eraill, gan gydweithio mewn ffordd ofalgar a sensitif. Fodd bynnag, mewn cyfnodau o addoli ar y cyd, er yn cwrdd â'r gofyn statudol, ni roddir cyfle i'r disgyblion fyfyr. Prin yw'r naws ysbrydol yn y sesiynau hyn.
68. Gwelir bod partneriaeth dda iawn yn bodoli gyda'r rhieni. Mae cytundeb ysgol a chartref yn weithredol. Mae'r prospectws yr ysgol yn flynyddol, ynghyd ag adroddiad y llywodraethwyr i'r rhieni yn cwrdd â'r gofynion statudol. Anfonir gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol i'r rhieni yn rheolaidd. Mae'r rhieni yn werthfawrogol iawn o waith yr ysgol ac adlewyrchwyd hyn yn eu hymatebion cadarnhaol drwy'r holiaduron ac yn y cyfarfod cyn-arolwg. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn hynod weithgar wrth godi arian i gronfa'r ysgol.
69. Mae gan yr ysgol gysylltiadau niferus gyda'r gymuned leol sy'n cael dylanwad gadarnhaol iawn ar ystod y profiadau a gynigir i'r disgyblion trwy gyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlwaidd. Gwneir defnydd effeithiol o dalgylch yr ysgol ac aelodau'r gymuned leol.
70. Mae cysylltiadau cynhyrchiol gydag ysgolion uwchradd y dalgylch. Mae yma gysylltiadau pontio lle cychwynnir ar brosiectau mathemateg a hanes gyda disgyblion blwyddyn 6 a fydd yn cael eu cwblhau wedyn yn ystod eu tymor cyntaf ym mlwyddyn 7.
71. Mae'r ymweliadau lleol ynghyd a'r cydweithio agos gyda gwahanol asiantaethau yn dyfnhau gwybodaeth y disgyblion o fyd gwaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau menter ac entrepreneuriaeth y disgyblion yn dangos elfen o ragoriaeth. Fe welir hyn yng ngwaith blwyddyn 6 wrth iddynt gynllunio, creu a marchnata eu papur newydd 'Hanes Hiracl' mor llwyddiannus.
72. Datblygir ymwybyddiaeth y disgyblion am weithdrefnau sy'n cynnal datblygiad cynaliadwyedd yn dda. Derbynydd y wob'r Efydd Eco Ysgol. Mae trefniadau ar gyfer ailgylchu ac arbed ynni bellach wedi'u hintegreiddio i fywyd yr ysgol.
73. Hyrwyddir ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fydeang yn dda. Cyfranna'r disgyblion yn rheolaidd at amrywiol elusennau.
74. Mae gweithgareddau'r ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) a thrwy hyn hyrwyddir addysg gydol oes yn effeithiol.

**Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

75. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r dyfarniad gradd 2 a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Barnodd y tîm fod nodweddion rhagorol yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a sicrhau cyfleon cyfartal.
76. Mae'r gofal, y cyfarwyddyd ar gefnogaeth yn nodweddion rhagorol o waith yr ysgol. Mae'n gymuned ble mae'r disgyblion yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Maent yn hapus dros ben yn yr ysgol ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt â'i gilydd ac a holl aelodau'r staff. Rhoddir pwyslais mawr ar bwysigrwydd cyfeillgarwch, goddefgarwch, cwrteisi a gonestrwydd. Teimla'r disgyblion yn gysurus yn eu gallu i droi at unrhyw aelod o'r staff am gyfarwyddyd neu gymorth yn ôl yr angen.
77. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni yn dda. Roedd ymateb i'r holiadur a ddosbarthwyd cyn yr arolwg bron yn ddieithriad yn hynod o gadarnhaol ac yn canmol pob agwedd o waith yr ysgol yn glodwiw iawn. Os oes unrhyw bryder am ddisgybl fe gysylltir â'r cartref yn syth ac mae'r pennaeth a'r staff yn barod i gwrdd â rhieni i drafod anghenion y disgyblion unrhyw adeg. Mae canran y rhieni sy'n mynychu cyfarfodydd ac adolygiadau blynyddoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn uchel.
78. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni sefydlu dda iawn ar gyfer plant y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn. Maent yn ymgartrefu'n gyflym a chânt gefnogaeth dda gan eu hathrawon, cymorthyddion a phlant hŷn yr ysgol. Mae hwyr ddyfodiad i'r ysgol yn cael cymorth priodol i setlo i'w hamgylchfyd newydd ac mae strategaeth Sustem Bydis yn gweithio'n llwyddiannus iawn.
79. Mae cysylltiadau a phartneriaeth dda gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Mae'r drefniadaeth ar gyfer trosglwyddo disgyblion B6 i Ysgol Y Friars, a hefyd ar adegau i Ysgol Tryfan, gyda'g ymweliadau gan athrawon pontio yn gadarn. Darperir cyfleon da i fyfyrwyr o'r ysgolion uwchradd a cholegau lleol gael profiad gwaith yn yr ysgol. Mae cysylltiadau clos â'r Brifysgol.
80. Rhoddir ystyriaeth fanwl i Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABaCh) wrth drefnu gweithgareddau. Mae'r rhaglen ABaCh yn rhoi cyfleon da i ddisgyblion fynegi eu barn a thrafod problemau. Mae Cyngor yr Ysgol yn cynrychioli'r disgyblion, yn effeithiol iawn gan sicrhau bod llais disgyblion yn cael ei hystyried o ddifrif. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod materion a godir mewn ffordd aeddfed a chyfrifol.
81. Mae'r polisïau a'r holl weithdrefnau gofynnol monitro prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad dysgwyr yn eu lle. Maent oll yn gynhwysfawr ac wedi eu llunio yn ofalus. Mae'r cofrestrau a'r weinyddiaeth gysylltiedig, gyda chofnodion teilwng yn ymateb i ofynion Cylchlythyr 47/06 LICC. Er fod y monitro yn gadarn a phroactif, mae tystiolaeth yn y cofnodion yn dangos patrwm o ychydig absenoldebau, hyn er gwaethaf ymdrechion yr ysgol. Mae y gweithdrefnau gogyfer ymddygiad, disgyblaeth a gwrth fwlian hefyd yn dda. Yn y drafodaeth gyda'r Cyngor Ysgol fe gadarnhawyd hyn.

82. Mae aelodau'r staff i gyd yn gwybod am drefniadau'r ysgol yn y maes amddiffyn plant ac mae'r trefniadau gweithredu wedi eu sefydlu'n dda. Ceir polisiau a gweithdrefnau clir i sicrhau lles, iechyd a diogelwch y disgyblion, ac mae materion sydd yn codi pryder yn cael sylw syth. Mae asesiadau risg yn cael sylw priodol. Mae diogledd yr adeilad hefyd yn effeithiol.
83. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhagoriaeth. Mae'n cwrdd yn llawn â gofynion y Côd Ymarfer. Mae'r cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r rhieni yn arbennig o effeithiol. Fe luniwyd ffurflen wybodaeth ddefnyddiol dros ben i egluro'n syml yr hyn a olyga cymorth ychwanegol i ddisgyblion. Fe gydnabyddir hyn gan yr awdurdod fel nodwedd ragorol yn y ddarpariaeth
84. Mae systemau effeithiol yn eu lle i ganfod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae'n broses hynod o fanwl ac yn arwain at gefnogaeth ychwanegol addas i gwrdd ag anghenion dysgu penodol. Mae'r arian a ddyrennir i gyllido'r ddarpariaeth yn cael eu rheoli'n ofalus dros ben. Cedwir golwg clos ar eu cynnydd gan gydlynedd ADY, y pennaeth a'r athrawon dosbarth.
85. Llunnir cynlluniau addysg unigol o ansawdd dda ar gyfer unigolion. Mae'r targedau dysgu penodol yn cyfateb yn briodol i anghenion y disgyblion unigol ac mae'r tasgau a drefnir yn dilyn y sesiynau neilltuo yn cyd-fynd yn dda a gweithgareddau dosbarth. Mae tystiolaeth glir o'r cynnydd a wnaiff y disgyblion hyn mewn ymateb i'r gefnogaeth.
86. Mae'r cydlynedd ADY yn brofiadol iawn a rheola'r ddarpariaeth yn effeithiol dros ben. Mae ganddi wybodaeth drylwyr am anghenion y disgyblion a chydweithia'n dda gyda'r athrawon i sicrhau y caiff pob disgybl fynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol. Caiff y disgyblion gefnogaeth ychwanegol o ansawdd da gan athrawes gynhaliol sydd yn mynychu'r ysgol am ddiwrnod yr wythnos. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r disgyblion yn y dosbarthiadau.
87. Gwneir defnydd effeithlon o wasanaethau cynhaliath ar gyfer helpu disgyblion gan gynnwys disgyblion ag ADY. Ceir cydweithio da rhwng yr ysgol ac Unedau Cynhaliol yr ALI a chydlynwyr yr Ysgol Uwchradd leol. Caiff disgyblion sydd yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol gynhaliath dda iawn gan yr athrawon dosbarth.
88. Mae gweithdrefnau'r ysgol sy'n ymwneud â chynnal ymddygiad da, dileu ymddygiad gormesol a hyrwyddo cydberthynas dda rhwng yr holl ddisgyblion yn weithredol ac yn nodwedd dda ym mhob dosbarth. Er mai nifer fechan o ddisgyblion sydd yn amlygu problemau ymddygiad fe gaiff achosion o'r math eu trin ar frys ac yn effeithiol. Mae'r staff yn adnabod y sgiliau a'r strategaethau priodol i ymateb yn effeithiol i unrhyw achos.
89. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol ac yn cael ffocws amlwg yn ddyddiol. Rhoddir sylw arbennig o dda i amrywiaeth gefndiroedd y disgyblion a gweithredir yr ysgol yn sensitif ac effeithiol iawn i sicrhau cefnogaeth a chyfarwyddyd da iawn i'r rhai sydd angen sylw ychwanegol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y ddau ryw yn

effeithiol iawn, gyda'r bechgyn a'r merched yn derbyn yr un cyfleoedd o fewn y dosbarth ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae canllawiau i ymateb a achosion o hiliaeth wedi'u mabwysiadu. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o stereoteipio yn ystod yr arolygiad.

90. Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgwyr sydd âg anabledd corfforol yn briodol. Mae polisi hygyrchedd priodol yn ei le.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

#### Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

91. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

92. Mae'r pennaeth yn meddu ar werthoedd cadarn ac yn cynnig arweiniad cydwybodol a gofalgarg. Mae'n uchel ei pharch yn y gymuned ysgol a chaiff gefnogaeth dda gan yr holl staff. Cydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd uchel ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleon cyfartal. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

93. Mae nodau a pholisïau priodol wedi eu llunio sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion ac ar greu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu. Maent yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Perchir barn disgyblion o bob oedran a thrwy'r cyngor ysgol, caiff disgyblion gyfleon da i ddylanwadu ar nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

94. Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol wedi gweithredu'r cynllun Rhagori'n effeithiol. Llwyddwyd i ennill achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro yn 2006. Rhoddir pwyslais priodol ar egwyddorion Ysgolion Iach ac Ysgolion Gwyrdd. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol wrth baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac wrth adolygu'r cynlluniau gwaith tymhorol mewn ymateb i'r trefniadau cwricwlwm ac asesu diwygiedig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae cydweithredu da gydag ysgolion lleol eraill o fewn clwstrwr er enghraifft wrth ddatblygu agweddau o Addysg Gorfforol a Chwaraeon. Mae'r ysgol wedi dechrau ar y gwaith o gyd gymedroli asesiadau cyfnod allweddol 2 /cyfnod allweddol 3.

95. Mae gan yr ysgol ddull priodol o osod targedau. Dadansoddir asesiadau'r disgyblion yn ofalus i adnabod cryfderau a gwendidau. Mae'r targedau ysgol gyfan a bennir yn dargedau cyraeddadwy a realistig wedi eu selio ar adnabyddiaeth dda o'r disgyblion. Serch hynny, nid oes cyswllt clir rhwng y targedau hyn a thargedau disgyblion unigol.

96. Ysgwydda'r staff gyfran dda o gyfrifoldebau dros agweddau o'r cwricwlwm. Maent yn cyfrannu ac yn cydweithio'n dda i ddatblygiad yr ysgol. Serch hynny

nid yw rôl monitro arweinwyr pwnc wedi datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i ailstrwythuro ac ailddiffinio cyfrifoldebau yn sgil newidiadau staff a gofynion y cwricwlwm diwygiedig.

97. Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi eu sefydlu ar gyfer gwella medrau a hyfedredd athrawon. Serch hynny nid yw'r broses, ar hyn o bryd, yn canolbwyntio'n ddigonol ar gyflawniad y disgyblion. Darperir cyfleon da i staff i fynychu cyrsiau priodol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i ehangu cyfleon i staff rannu arfer dda o fewn yr ysgol.
98. Mae'r llywodraethwyr yn hynod o gefnogol i'r pennaeth, yn weithgar ac yn drylwyr. Trefnir cyfarfodydd rheolaidd a chedwir cofnodion eu trafodaethau a'u penderfyniadau'n drefnus. Trwy dderbyn adroddiadau tymhorol y pennaeth ac ymgynghorwyr ynghyd ac ymweliadau llywodraethwyr unigol mae'r corff llywodraethol yn cael darlun da o weithgareddau'r ysgol.
99. Mae'r corff llywodraethol yn bodloni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt ac mae'r polisiâu perthnasol yn eu lle. Mae Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni yn cwrdd â'r gofynion.

### **Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

#### **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**

100. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
101. Mae'r pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i safonau uchel ac yn gynyddol weithredol yn y broses o hunan arfarnu. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol ac agweddau i'w datblygu.
102. Mae gweithdrefnau hunan arfarnu wedi eu sefydlu sy'n gynhwysfawr ac yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth a'i ddadansoddi. Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn gan gynnwys edrych ar gynlluniau dysgu, trafod enghreifftiau o waith disgyblion, arsylwi addysgu a dadansoddi'n ofalus ganlyniadau a sesiadau ffurfiol. Serch hynny nid yw'r broses hyd yma'n canolbwyntio'n ddigon penodol ar arfarnu safonau a gyflawnir gan y disgyblion ar draws yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella.
103. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Caiff disgyblion hefyd gyfle i roi barn trwy'r cyngor ysgol.
104. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a luniwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn gynhwysfawr a gonest ac yn amlygu cryfderau ac agweddau i'w datblygu. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol ym mhump o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch yn y ddau gwestiwn arall.
105. Mae'r blaenoriaethau a bennir yn y CDY, ar y cyfan, yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwylidig ynghyd â'r monitro arfaethedig.

Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Serch hynny, mae'r blaenoriaethau a nodir yn rhy niferus i gynnig ffocws clir i ddatblygiad yr ysgol ac nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol yn nhermau cyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.

106. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Cymerwyd camau gweithredol priodol mewn ymateb i'r holl faterion allweddol. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion yn y pynciau farnwyd yn foddhaol ac yn anfoddhaol yn yr arolygiad diwethaf.

### **Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

107. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
108. Mae'r cymhareb athro i ddisgybl yn dda ac er bod nifer o newidiadau wedi bod yn aelodau'r staff yn ddiweddar, mae ganddynt brofiad a chymwysterau priodol i ddysgu holl bynciau'r cwricwlwm. Ble defnyddir arbenigedd drwy gyfnewid dosbarthiadau ar gyfer addysgu cerdd, celf ac addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 2, fe gaiff effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad y disgyblion. Defnyddir staff ategol yn effeithiol i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae aelodau'r staff i gyd yn gweithio'n dda fel tîm.
109. Mae'r rhan fwyaf o'r staff addysgu a'r staff ategol wedi derbyn hyfforddiant addas a phriodol i ddiweddarau eu gwybodaeth ac yn trosglwyddo agweddau priodol yn effeithiol i wella'r addysgu a'r dysgu. Fe sicrhair fod yr hyfforddiant yn cyfateb yn dda i anghenion yr ysgol ac i ddatblygiad proffesiynol aelodau unigol o'r staff. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i sicrhau hyfforddiant pellach i alluogi staff i gyfrannu'n llawn i ddatblygiad y cyfnod sylfaen.
110. Gweithredir yn unol â'r gofynion statudol i ganiatáu amser digyswllt i'r athrawon. Gwneir defnydd effeithiol o'r amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth addysgol yn gyffredinol.
111. Mae nifer adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer pob oedran yn dda iawn. Maent o ansawdd da, yn hwylus wrth law i'r disgyblion a'r athrawon ac yn cyfateb i anghenion a gofynion y cwricwlwm. Mae cynllunio a chyllido gofalus yn sicrhau fod adnoddau yn cael eu diweddarau yn unol â blaenoriaethau yn y CDY.
112. Mae gofod yr adeilad yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae cryn fuddsoddiad wedi ei wneud i wella awyrgylch mewnol ac allanol yr ysgol ers yr arolwg diwethaf. Addaswyd sawl ystafell i greu gwell cyfleuster ar gyfer addysgu, Mae'r arddangosfeydd o fewn yr ystafelloedd dosbarth, y coridorau yn ddeniadol a symbylol ac yn creu amgylchedd cyffrous sy'n hybu'r dysgu a'r

addysgu. Maent o safon dda ac yn dangos fod yr ysgol yn gwerthfawrogi cyflawniadau y disgyblion. Cedwir a chynhelir yr ysgol yn dda, ac mae safon glanweithdra yn uchel.

113. Er braidd yn gyfyng fe wneir defnydd da o'r gofod allanol drwy drefnu amseroedd chwarae ar wahanol adegau i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 a 2. Mae'r buarth yn amgylchedd deniadol a defnyddiol iawn ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau. Gwneir defnydd llawn ac effeithiol o'r maes chwarae a'r cwrt caled gyfagos sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd. Mae ardal allanol ar gyfer plant dan bump oed yn cael ei ddatblygu i ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen.
114. Mae rheolaeth ariannol yn dda. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cynllunio'r defnydd o gyllid yr ysgol yn ofalus ac yn adolygu eu penderfyniadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth da am arian.



## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Cyfnod Sylfaen

#### Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

##### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

###### Nodweddion da

115. Daw'r plant yn gynyddol annibynol gyfrifol am eu hylendid personol. Gwyddant ei bod yn bwysig golchi'r dwylo cyn mynd ati i baratoi bwyd ac ar ôl bod yn ymdrin â wyau a chywion ieur. Defnyddiant raglen TGCh ar y Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i'w hysgogi i drafod bwydydd sydd yn iach ar gyfer y corff yn effeithiol.
116. Maent yn arddangos hyder amlwg wrth iddynt archwilio ac arbrofi yn y gwahanol ardaloedd symbylol a gynllunir ar eu cyfer.
117. Mae'r plant yn dangos gofal a hoffter tuag at ei gilydd. Dangosant hefyd bod angen gofal cyson ar bethau byw o'u cwmpas wrth iddynt ofalu am y cywion bach wedi iddynt ddeor o'r wyau. Gallant drafod teimladau ar lefel syml, a sut roeddent yn teimlo wrth ffarwelio â'r cywion a fu yn eu gofal.

###### Diffygion

118. Mae lleiafrif o'r plant yn cael trafferth canolbwyntio am gyfnodau penodol o fewn eu grwp ffocws

#### Sgiliau Iaith, Llythyrennedd a Chyfathrebu

##### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

###### Nodweddion da

119. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau gwranddo ac yn cyfrannu'n gynyddol hyderus i sgwrsio a thrafod eu profiadau yn eu mamiaith. Mae'r mwyafrif yn cysylltu eu cyfraniadau i drafodaethau â'r hyn a ddigwydd yn flaenorol gan ddwyn i gôf rhai manylion perthnasol.
120. Maent yn dangos eu bod yn deall ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg. Gallant dalu sylw ac ymateb i stori neu sefyllfa chwarae rôl yn y Gymraeg ac ymatebant yn dda i symbyliadau megis rhigymau a chaneuon syml. Wrth chwarae rôl yn y siop hufen iâ gwelir ambell unigolyn yn creu deialog effeithiol wrth brynu a gwerthu.
121. Ymatebant yn dda i symbyliadau gweledol megis ar y Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol, neu wrth ddilyn map sy'n cuddio 'Cymeriadau Sannau Newydd

Sali', gan ganolbwyntio a chyfleu eu syniadau personol. Gallant drefnu llythrennau unigol ar lein ddillad, fel eu bod yn creu enwau'r cymeriadau a ddarganfyddasant drwy ddilyn y map.

122. Gall rai o blant y dosbarth derbyn ddeall arwyddocad y gair printiedig a'r berthynas rhwng symbolau printiedig a phatrymau sain.
123. Mwynha'r plant roi marciau ar bapur neu ddefnydd priodol arall mewn gwahanol sefyllfoedd ar draws y meysydd dysgu, megis ysgrifennu taleb yn y siop neu greu llythrennau mewn ewyn eillio.

### **Diffygion**

124. Mae ychydig o'r plant yn gyndyn o ymateb ar lafar.

### **Datblygiad Mathemategol**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

125. Trwy gyfrwng gweithgareddau ymarferol a thrafodaeth, mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o rif mewn amrywiaeth o gyd-destunau e.e. wrth gyfri sawl crempogen gellir eu taflu a'u dal. Ar lefel eu datblygiad, mae'r mwyafrif yn gallu didoli, cyfateb a threfnu gwrthrychau (megis wrth chwarae gêm bondiau rhif yr iâr yn y nyth, neu gyfri'r dail ar goeden ffa Jac).
126. Wrth chwarae rôl yn y siop, datblyga'r plant ymwybyddiaeth gynyddol dda o werth arian a'r defnydd a wneir ohono. Dechreuant adio a thynnu drwy ddefnyddio arian, ar lefel syml. Wrth fesur, defnyddiant unedau ansafonol at ddiben cymharu a gallant siarad am eu gwaith.
127. Ymchwiliant i batrymau ailadroddus yn ymwneud â lliw (wrth greu gwenynen) a dod i adnabod siapiau megis hirgrwn, cylch, sffêr, sylindr, côn wrth greu cyw bach allan o siapiau. Maent yn creu modelau a lluniau effeithiol, ac yn gallu defnyddio TGCh i gyfoethogi eu profiadau.

### **Diffygion**

128. Nid yw pob plentyn yn hyderus pan osodir sialensau rhif sy'n defnyddio mathemateg pen a gweithredau mathemategol o adio a thynnu.

### **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

129. Mae'r plant yn dod i ddeall bod ystyr i symbolau printiedig wrth astudio map o'u hamgylchedd leol (sef eu maes chwarae hwy). Gallant wrando a dilyn

cyfarwyddiadau, ac wrth ddilyn map syml, ddisgrifio'r hyn y maent wedi ei ddarganfod a chynnig esboniadau syml.

130. Wrth raglennu'r Bee-bot, mae'r plant yn nodi'r hyn y mae arnynt eisiau ei ddarganfod a sut maent am fynd ati i gyflawni'r dasg. Maent yn rhagfynegi'n effeithiol, ac yn dechrau ystyried barn eraill wrth wneud penderfyniadau.
131. Mae'r plant hynaf yn gwneud arsylwadau am eu hardal leol (wrth fynd ar daith i siop gyfagos) gan adnabod nodweddion naturiol â nodweddion a grewyd gan ddyn.
132. Dônt i ddechrau adnabod yr effeithiau gwahanol dymhorau'n ar rai anifeiliaid a phlanhigion.

### **Diffygion**

133. Does dim diffygion pwysig.

### **Datblygiad corfforol**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

134. Wrth ddefnyddio'r cyfarpar mawr ac offer bach yn y neuadd a thu allan, mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth dda o ofod, a pherthnasoedd megis y tu ôl i, o flaen ac oddi tano yn dda.
135. Mae gan y plant hynaf ymwybyddiaeth dda, ac maent yn deall rheolau ac elfennau gêm. Maent yn gallu ymarfer amrywiaeth o wahanol ffyrdd o anfon a derbyn pêl yn fedrus.
136. Datblygant eu sgiliau corfforol llawdriniol manwl a'r echddygol bras yn effeithiol drwy weithgareddau'r ddarpariaeth barhaus y tu mewn ac allan i'r dosbarth.
137. Gall y plant drin ystod o declynau megis sisyrnau, brwsys paent, clai a llygoden y cyfrifiadur yn dda.

### **Diffygion**

138. Nid yw pob plentyn yn symud yn ddiogel gan ddangos rheolaeth a sgiliau cydsymud.

### **Datblygiad creadigol**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

139. Mae mwyafrif o blant yn gwneud dewisiadau annibynol gydag amrywiaeth eang o wahanol gyfryngau i greu darluniau, collage a phrintiadau lliwgar a deniadol.

Sylwiant ar liwiau a siapiau yng ngwaith yr arlunydd Catrin Williams, gan ddefnyddio hyn i'w symbylu i greu patrymau a lluniau personol.

140. Maent yn cymysgu, siapio, trefnu a chyfuno deunyddiau er mwyn creu gwrthrychau eu hunain sy'n cyfleu eu syniadau mewn modd creadigol e.e. ffrwythau a llysiau (thema:bwyta'n iach), neu hufen iâ a lolis rhew i'r siop (thema:lan-y-môr).
141. Mae'r plant yn datblygu eu hymatebion i wahanol symbyliadau cerddorol drwy wrando ac ymateb ar ffurf dawns gyda rhubannau, i gerddoriaeth Debussy 'La Mer'. Maent yn ymateb yn fyrfyr â meddwl dychmygus, yn unigol ac mewn grŵp, trwy gysylltu symudiadau er mwyn creu cyfres o wahanol lwybrau a siapiau a'u cyrff wrth ymateb i'r gerddoriaeth. Cana'r plant ystod o ganeuon, yn emynau a rhigymau gydag eraill a chan ddangos mwyniant.

### Diffygion

142. Does dim diffygion pwysig

### Cymraeg iaith gyntaf

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**  
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3: nodweddion da yn gorbwysio diffygion**

### Nodweddion da

143. Yng nghyfnod allweddol 1, dengys y rhan fwyaf o'r disgyblion y gallu i wrando'n astud ar yr athrawon ac ar gyfraniadau ei gilydd. Mae'r mwyafrif yn unol a'u gallu yn defnyddio geirfa addas i gyfleu eu syniadau a'u profiadau yn glir.
144. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen testunau syml yn synhwyrol a chywir gan ddwyn i gof gwybodaeth berthnasol. Mae'r mwyafrif yn defnyddio strategaethau priodol yn llwyddiannus i gyrraedd ystyr. Mae'r haen uchaf eu gallu yn barod i fynegi barn ar yr hyn maent wedi ei ddarllen.
145. Mae medrau ysgrifennu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn dechrau cyfleu ystyr a datblygu syniadau gan ddefnyddio geirfa addas. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol llwydda'r haen uchaf eu gallu i gysylltu a dilyniannu brawddegau yn llwyddiannus. Sillafa'r mwyafrif eiriau syml yn dda ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o atalnodi.
146. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gwrandao gyda diddordeb a chyfranna'r mwyafrif yn dda i drafodaethau dosbarth ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae'r goreuon yn cynnig sylwadau estynedig ac yn egluro eu safbwynt. Maent yn barod iawn i siarad gydag oedolion ac ymwelwyr am eu gwaith.

147. Mae mwyafrif disgyblion ieuengaf cyfnod allweddol 2 yn darllen ar lefelau priodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn darllen gyda rhuglder cynyddol gan ddefnyddio strategaethau ffonig i sefydlu ystyr. Maent yn ymateb yn dda i'r testun gan godi'r prif ffeithiau ohono. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol mae'r goreuon yn arddangos hyder a mynegiant da wrth ddarllen ar goedd. Maent yn ymateb yn synhwyrol i'r hyn a ddarllenant.
148. Mae mwyafrif disgyblion ieuengaf cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd mewn ysgrifennu yn unol a'u gallu. Maent yn ysgrifennu'n glir ac yn drefnus. Maent yn dangos gafael ar ddilyniant, yn amrywio peth o'u brawddegau ac yn sillafu geiriau syml sydd o fewn eu profiad yn gywir. Mae'r mwyafrif yn atalnodi'n lled gywir. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r goreuon yn ysgrifennu'n feddylgar mewn ffurf greadigol a ffeithiol ar amrywiaeth o destunau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gonfensiynau gramadeg a strwythurau brawddegau a defnyddiant baragraffau'n gywir.

### Diffygion

149. Mae gwallau cystrawen yn amlygu yn iaith llafar disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol. Caiff hyn effaith ar gywirdeb gwaith ysgrifenedig nifer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.
150. Nid oes digon o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen llyfrau mwy heriol.
151. Nid yw gallu disgyblion hynaf cyfnod allweddol 2 i ysgrifennu yn annibynnol ac estynedig wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

### Dylunio a thechnoleg

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

152. Gwna'r disgyblion trwy'r ysgol gynnydd rhagorol yn yr holl elfennau o ddylunio a thechnoleg. Dengys rhan fwyaf eu bod yn cymhwyso'r medrau ymchwilio, dylunio, datblygu syniad, cynhyrchu a gwerthuso a gwella eu gwaith yn hynod o effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae eu gallu i weithio'n gyda'u gilydd gan ddefnyddio eu medrau datrys problemau a TGCh wrth ymchwilio ac i arddangos eu gwaith yn rhagorol. Yn y ddau gyfnod allweddol mae disgyblion yn llwyddo'n dda i greu cysylltiadau rhwng y pwnc ac agweddau eraill o'r cwricwlwm.
153. Bron yn ddieithriad mae ymwybyddiaeth disgyblion y ddau gyfnod allweddol o hylendid a diogelwch yn dda iawn wrth iddynt ymwneud â thechnoleg bwyd a defnyddio offer torri a gludo.

154. Yng nghyfnod allweddol 1, yn eu gwaith ar greu bwystfil a bagiau mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cynnig syniadau da ar lafar ac yn trafod y deunyddiau a ddefnyddiwyd yn hyderus a phriodol. Maent yn ymchwilio'n ofalus i wahanol wrthrychau cyn cynllunio a chynhyrchu gwaith ei hunain sydd gan amlaf o safon dda.
155. Adeilada disgyblion cyfnod allweddol 2 yn llwyddiannus dros ben ar y cynnydd da a welir yng nghyfnod allweddol 1.
156. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymwybodol o'r angen i ystyried meini prawf llwyddiant wrth ymateb i dasg. Mae eu gallu i dorri ac uno ystod o ddeunyddiau a chynhwysion yn datblygu'n dda. Maent yn gallu egluro'r drefn o weithredu ac yn gwneud sylwadau synhwyrol ar sut y gallent wella eu gwaith.
157. Yn eu gwaith ar systemau a rheoli maent yn cyflawni gwaith o safon uchel. Dangosant ddealltwriaeth dda iawn am briodweddau a nodweddion trydanol a mecanyddol a defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol iawn wrth ddylunio a gwneud cynhyrchion.
158. Defnyddiant offer llaw ac offer beiriannol, ac ystod o gyfarpar a phrosesau i gymysgu, siapio, ffurfio ac uno defnyddiau a chynhwysion yn llwyddiannus iawn.
159. Mae gwaith yr haen hynaf wrth ddylunio cerbyd dan reolaeth trydanol yn drawiadol.

### **Diffygion**

160. Does dim diffygion pwysig.

<b>Celf</b>
-------------

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**  
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol**

### **Nodweddion rhagorol**

161. Mae'r arddangosfeydd amrywiol o waith disgyblion a welir ar furiau dosbarthiadau, yn y rhodfeydd ac yn y neuadd yn drawiadol ac yn tynnu sylw at y gwaith rhagorol a gynhyrchir gan y disgyblion.
162. Mae ymateb disgyblion cyfnod allweddol 2 wrth archwilio, arbrofi a dadansoddi arddulliau artistiaid lleol a Chymreig yn rhagorol. Gallant drafod nodweddion gwaith yr artistiaid hyn gan ddefnyddio geirfa briodol. Ymatebant gyda dychymyg gan ddefnyddio ystod o offer a thechnegau'n gelfydd wrth efelychu eu harddulliau yn effeithiol iawn yn eu gwaith eu hunain.

## **Nodweddion da**

163. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o gyfryngau a thechnegau i gynhyrchu gwaith o safon da.
164. Yng nghyfnod allweddol 1, gwna'r disgyblion ddefnydd da o amrediad eang o adnoddau a chyfryngau wrth iddynt ddarlunio, peintio a chreu o arsylwadau ac o'r cof. Maent yn arsylwi'n ofalus ar bortreadau ac yn arbrofi'n greadigol wrth lunio portreadau eu gilydd gan ddechrau dangos ymwybyddiaeth o elfennau gweledol megis tŷn a llinell.
165. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o linell a thŷn, patrwm, gwedd siâp a ffurf. Maent yn cofnodi delweddau a syniadau yn effeithiol mewn sawl cyfrwng ar sail arsylwi, profiad a'r dychymyg. Maent yn arsylwi'n ofalus ar ddelweddau o'r awyrgych naturiol ac yn eu defnyddio'n gelfydd fel symbyliad i waith creadigol. Maent yn adolygu ac yn newid eu gwaith pan welant fod angen gwneud hynny yn hyderus a llwyddiannus.
166. Gwnânt ddefnydd effeithiol o gyfarpar cyfrifiadurol ar gyfer arbrofi gyda gwahanol dechnegau celf i greu cynnyrch gwreiddiol a chreadigol. Mae eu gallu i werthuso eu gwaith a thrafod nodweddion da a diffygion yn datblygu'n dda. Maent yn frwdfrydig yn eu gwaith ac yn gallu dwyn i gof a mynegi barn synhwyrol ar amrywiaeth o waith blaenorol.

## **Diffygion**

167. Does dim diffygion pwysig.

<b>Cerddoriaeth</b>
---------------------

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**

## **Nodweddion da**

168. Yng nghyfnod allweddol 1 mae'r disgyblion yn canu amrywiaeth o ganeuon ar eu côf mewn tiwn, ar y cyfan, a chyda pheth rheolaeth ar anadlu, ynganiad a deinameg.
169. Gallant gadw curiad gyda chefnogaeth yr athrawes. Defnyddiant amrywiaeth o ffynonellau sain megis eu lleisiau, cyrff, ac offerynau taro di-draw, gan drafod yr elfennau cerddorol o ddeinameg a chyflymder yn weddol dda. Gallant greu patrymau rhythmig wrth chwarae gemau syml.
170. Yng nghyfnod allweddol 2, wrth ddysgu canu'r recorder, defnyddia'r disgyblion dechneg chwarae priodol ac arddangosant rheolaeth gynyddol ar sain wrth iddynt berfformio. Gallant greu patrymau rhythmig gan fewnoli gwybodaeth newydd i wella eu perfformiadau yn effeithiol.

171. Mae'r disgyblion hynaf yn arddangos safonau da wrth gyfansoddi. Maent yn gallu arbrofi gyda gwahanol wead wrth greu 'rap rhythmig' a pherfformio'n fyrfyr. Defnyddiant TGCh yn arbennig o effeithiol. Maent yn gwerthfawrogi cyfansoddiadau ei gilydd.
172. Gall disgyblion cyfnod allweddol 2 ganu caneuon amrywiol megis caneuon ysgafn, emynau a chaneuon cylch gyda rheolaeth gynyddol ar ystum, ynganiad, brawddeg a pharhad. Maent yn gallu cynnal rhan fel aelod o grwp mewn perfformiadau deulais gan gadw traw yn weddol dda.

### **Diffygion**

173. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 1 yn arddangos sgiliau arbrofi'n annibynnol, wrth archwilio a chreu seiniau o'u dewis hwy. Nid oes gan y mwyafrif afael ar reolaeth na dealltwriaeth o'r elfennau cerddorol.
174. Nid yw sgiliau gwranddo disgyblion cyfnod allweddol 1 wrth gyfansoddi, perfformio a gwerthuso wedi datblygu'n ddigonol.

<b>Addysg gorfforol</b>
-------------------------

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**  
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Nodweddion da**

175. Yng nghyfnod allweddol 1 a 2, mae mwyafrif o'r disgyblion yn gweithio'n egniol ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ac yn canolbwyntio'n dda wrth weithio. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ofynion diogelwch wrth symud o gwmpas y buarth, y cae, y cwrt caled a'r neuadd. Maent yn ymwybodol iawn fod ymarfer yn bwysig er lles iechyd a ffitrwydd.
176. Mae llawer o ddisgyblion y ddau gyfnod allweddol yn gwneud sylwadau adeiladol synhwyrol wrth werthuso perfformiad eu hunain ac eraill.
177. Yng nghyfnod allweddol 1, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos rheolaeth da o sgiliau taflu, dal a theithio gyda phêl. Gweithiant yn dda mewn grwpiau gan ddangos hunan ddisgyblaeth dda.
178. Yng nghyfnod allweddol 2, mae pawb yn cydweithio'n dda iawn yn unigol, mewn parau ac mewn timau. Yn y wers ar sgiliau pêl droed mae techneg y disgyblion o reoli pêl yn dda iawn. Gwnant gynydd rhagorol yn y sgiliau o dderbyn a phasio. Maent yn parchu confensiynau chwarae teg, cystadlu'n onest ac yn dangos ymddygiad da wrth chwarae.
179. Yn y wers gymnasteg, dengys mwyafrif y disgyblion ymwybyddiaeth dda o rannau o'r corff. Maent yn creu dilyniannau a symudiadau creadigol gan arddangos siapiau amrywiol, tyndra yn y corff, ymateb sensitif i gyfarwyddiadau, â symudiadau'n llifo'n rhwydd. Ar yr offer gweithia'r disgyblion yn hyderus a gofalus.



180. Mae eu gallu i weithio'n greadigol yn eu gwers dawn yn nodwedd dda iawn o'u gwaith. Mae pawb yn cyfleu syniadau, emosiynau ac yn dangos amrywiaeth o symudiadau yn effeithiol wrth ymateb i gerddoriaeth. Ceisiant drwy'r amser werthuso a gwella eu perfformiad eu hunain.

### **Diffygion**

181. Does dim diffygion pwysig.

## **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad**

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol a holl staff yr ysgol yn ymfalchïo yng nghanfyddiadau'r tîm arolygu yn dilyn ei ymweliad ag Ysgol Hiracl. Mae cynnwys yr adroddiad yn destun balchder i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol.

Derbyniodd yr ysgol arolygiad teg ac adeiladol iawn o ran sylwadau ac argymhellion. Roedd yr arolygiad yn broses agored a gonest a chafwyd deialog broffesiynol ynghyd a sylwadau cadarn.

Cafwyd trafodaethau cychwynnol manwl a phwrpasol ar gynnwys yr hunan arfarnu a oedd yn ein galluogi i osod cyfeiriad clir ac agenda agored i'r arolygiad.

Mae'r llwyddiant a ddaeth i ran yr ysgol yn dystiolaeth clir o gydweithrediad parod ac ymroddiad diflino'r staff dysgu a'r staff ategol, cefnogaeth gadarn y Corff Llywodraethol a'r rhieni a diwydrwydd a dyfalbarhad yr holl ddisgyblion.

Rydym yn falch iawn bod yr arolygwyr yn cydnabod bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

Bydd yr ysgol yn awr yn ymgorffori'r argymhellion yn y Cynllun Datblygu ar gyfer 2009 – 2010 ac yn gweithredu ar yr argymhellion hynny. Anfonir copi o gynllun gweithredu'r ysgol mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad i'r holl rieni a bydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr yn adrodd ar y cynnydd a wneir.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Hirael
Math o ysgol	Cyfnod Sylfaen a chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Ffordd y Gogarth Bangor Gwynedd
Cod post	LL57 1BA
Rhif ffôn	01248 352182

Pennaeth	Miss Valmai Davies
Dyddiad penodi	Medi 1996
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mr George Gibbs
Arolygydd cofrestredig	Mr Goronwy Morris
Dyddiadau'r arolygiad	1-3/06/09

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	11	21	24	29	24	29	22	33	193

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	8	3	8.8

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	26:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	11:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	Amherthnasol
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	26
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2009	91.5	93.1	93.0
Hydref 2008	92.9	91.5	93.3
Haf 2008	94.8	88.2	92.3

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	28%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

### Atodiad 3

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

##### Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B2		22		
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	14	82	5
		Cenedlaethol	1	2	10	63	26
Cymraeg: llafaredd	Aseiad athro	Ysgol	0	0	18	77	5
		Cenedlaethol	1	2	10	62	25
Cymraeg: darllen	Aseiad athro	Ysgol	0	0	27	64	9
		Cenedlaethol	1	2	19	66	12
Cymraeg: ysgrifennu	Aseiad athro	Ysgol	0	0	27	73	0
		Cenedlaethol	0	3	19	66	12
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	9	77	14
		Cenedlaethol	0	2	11	65	22
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	9	91	0
		Cenedlaethol	0	2	9	66	23

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro

Yn yr ysgol	86.4	Yng Nghymru	80.1
-------------	------	-------------	------

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol  
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

##### Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B6		25							
Canran y disgyblion ar bob lefel												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	4.0	0	0	0	0	4.0	12.0	28.0	52.0	
		Cenedlaethol	0.2	0	0	0.5	0.6	3.1	15.6	51.3	28.5	
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	4.0	0	0	0	0	4.0	12.0	48.0	32.0	
		Cenedlaethol	0.3	0	0	0.8	0.8	4.4	16.7	53.4	23.6	
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	4.0	0	0	0	0	4.0	16.0	32.0	44.0	
		Cenedlaethol	0.2	0	0	0.5	0.6	4.0	14.7	51.4	39.9	
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	14.8	66.7	18.5	
		Cenedlaethol	0.2	0	0	0.5	0.5	1.8	11.4	53.9	31.7	

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro

Yn yr ysgol	76.0%	Yng Nghymru	75.5%
-------------	-------	-------------	-------

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono  
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb  
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb  
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pedwar arolygydd ddeg diwrnod arolygydd yn yr ysgol. Yn ychwanegol bu asesydd cymheiriad yn rhan o'r tîm arolygu.

Ymwelodd yr arolygwyr â:

- 38 o wersi neu wersi rhannol;
- pob dosbarth; ac
- addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfod fel tîm ar ddechrau'r arolygiad a gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni; a
- gyda'r pennaeth a'r athrawon, y cyngor ysgol ynghyd â grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 49 o ymatebion i holiadur rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith y disgyblion yn y gorffennol a'r presennol.

Bu aelod o dîm rheoli'r ysgol yn ei rôl fel enwebai yn rhan o bob cyfarfod tîm.

Ar ôl yr arolygiad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Goronwy Morris Arolygydd. Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb ac Argymhellion Cwestiynau Allweddol 1, 2, 5 a 6 Cymraeg iaith gyntaf Celf
Mr William Owen Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau at gwestiynau 1, 3, 4, 5 a 7
Mr Merfyn Lloyd Jones Arolygydd tîm	Cwestiynau Allweddol 4 a 7 a chyfraniadau at gwestiynau 1 a 2, Dylunio a thechnoleg Addysg Gorfforol
Miss Iola Owen Arolygydd tîm	Cwestiwn Allweddol 3 a chyfraniadau at gwestiynau 1, Cyfnod Sylfaen Cerddoriaeth
Mrs Anwen Griffith Asesydd Cymheiriaid	Cyfraniadau i'r holl gwestiynnau
Mr Iolo Rhys Evans Enwebai	Cyfraniadau i'r holl gwestiynau trwy gyfrannu gwybodaeth

### Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

**Contractwr:**  
Partneriaeth Dyfri Partnership  
Awel Tywi  
Llanymddyfri  
Sir Gaerfyrddin  
SA20 0EX